Estyn

*Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Meithrinfa Twtlol**
**Yr Hen Ysgol**
**Pentrefoelas**
**Betws y Coed**
**LL24 0HY**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2014**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 06/08/2014**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Meithrinfa Twtlol sydd wedi`i leoli ym Mhentrefoelas. Pentref gwledig bychan yw Pentrefoelas ar yr A5 tua 4 milltir i'r dwyrain o Betws y Coed yng Ngogledd Cymru. Mae'r feithrinfa yn eiddo preifat ac yn dyddio'n ôl i 1996. Mae`r feithrinfa wedi ei lleoli yn hen adeilad yr ysgol sydd wedi cael ei hadnewyddu i ddarparu amgylchedd mewnol pwrpasol deniadol ac ardal chwarae a gweithgareddau y tu allan sy`n estynedig ac wedi gwella llawer.

Mae`r feithrinfa yn darparu gofal llawn ar gyfer plant dros ddwy oed ac mae wedi'i chofrestru gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) i gymryd hyd at 19 o blant mewn unrhyw un sesiwn. Mae`r plant yn symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg yn llawn amser yn y mis Medi sy`n dilyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Ar hyn o bryd mae 48 o blant ar y gofrestr, gan gynnwys 15 o blant tair oed, gyda phump yn cael eu hariannu i dderbyn addysg blynyddoedd cynnar. Daw'r rhan fwyaf o'r plant o gartrefi lle mae`r Gymraeg yncael ei siarad yn bennaf gydag ychydig o gartrefi Saesneg eu hiaith. Nid oes unrhyw blant yn bresennol ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae naw aelod o staff yn cael eu cyflogi – mae pob un yn meddu ar gymwysterau addas gyda phrofiad o weithio gyda phlant ifanc. Y perchennog yw arweinydd y feithrinfa ac mae hi'n cael ei chynorthwyo gan ddirprwy sy'n ysgwyddo'r cyfrifoldeb yn ôl yr angen. Mae cogydd rhan amser a glanhawr yn cael eu cyflogi hefyd.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan AGGCC ym Mai 2014 a gan Estyn ym Mehefin 2008.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

***Prif arfarniad***

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- mae`r holl blant yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni`n dda, yn enwedig wrth ddysgu iaith ac yn eu datblygiad personol a chymdeithasol;
- mae`r holl blant yn ymddwyn yn dda iawn ac mae ganddynt agweddau eithriadol at eu tasgau;
- mae safonau lles y plant yn uchel;
- mae`r ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu a gweithgareddau arloesol a llawn dychymyg ar gyfer y plant;
- mae safonau gofal, cefnogaeth ac arweiniad ar gyfer y plant yn effeithiol iawn;
- mae`r ddarpariaeth ar gyfer dysgu tu allan yn rhagorol;
- mae`r berthynas rhwng plant a rhwng plant ac oedolion yn arbennig o dda.

### Rhagolygon gwella

Mae`r rhagolygon gwella`n dda oherwydd:

- mae`r arweinydd yn rhoi ffocws clir sydd wedi`i sefydlu`n dda ar ddarparu`r ddarpariaeth orau posibl ar gyfer y plant;
- dros y blynyddoedd, mae`r lleoliad wedi sefydlu blaenoriaethau clir sydd wedi`u cyflawni ar gyfer gwelliant;
- mae`r gweithdrefnau ar gyfer hunanarfarnu wedi`i sefydlu`n dda ac mae hanes da o weithredu newidiadau;
- mae`r staff yn cyd-weithio`n dda iawn fel tîm ac yn gweithio gyda`i gilydd yn hapus heb fawr o newid ymysg y staffio.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i'r lleoliad:

A1 barhau i fireinio`r gweithdrefnau asesu er mwyn canolbwyntio ar ddatblygiad medrau`r plant a defnyddio`r canlyniadau i gynllunio gweithgareddau i`r dyfodol.

A2 sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o gynnydd eu plant a`r hyn maen nhw`n medru ei wneud i`w helpu i wella.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae'r holl blant yn gwneud cynnydd da ac yn cyflawni'n dda. Mae datblygiad medrau`r plant yn uwch na'r hyn sydd i`w ddisgwyl gan blant o'r oedran hwn, yn enwedig eu hiaith a'u datblygiad personol a chymdeithasol.

Mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau gwrando da; maen nhw`n gwrando'n astud ar storïau ac mae llawer yn gallu dwyn i gof storïau maen nhw`n eu hadnabod yn dda. Mae gan y plant yma eirfa sy`n datblygu'n dda ac maen nhw`n mynegi eu hunain yn glir. Maen nhw`n siarad yn hyderus â`u ffrindiau a gyda oedolion. Mae eu hunan-hyder yn eu galluogi i sgwrsio ag ymwelydd.

Mae llawer o blant yn adnabod eu henwau yn ystod cofrestru ac mae nifer yn adnabod enwau eu ffrind. Mae pob plentyn yn dechrau creu marciau ac yn deall rhai o swyddogaethau ysgrifennu. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn trin offer ysgrifennu yn gywir.

Mae`r rhan fwyaf o blant yn mwynhau edrych ar lyfrau ac mae llawer yn gwneud hynny yn annibynnol. Maen nhw`n trin llyfrau yn gywir ac yn adnabod rhai o'r lluniau yn y llyfrau. Mae pob plentyn yn sgwrsio'n rhugl yn y Gymraeg yn ystod gweithgareddau chwarae ac wrth siarad gydag oedolion.

Mae medrau rhif y plant yn datblygu'n dda. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyfrif i 10 ac ychydig y tu hwnt i'r rhif. Mae llawer o blant yn adnabod rhifau hyd at 10. Mae llawer o blant yn dechrau mesur, fel mesur y glaw a throsglwyddo eu mesuriadau i bapur fel graff bar. Mae hyn yn eu galluogi i gymharu glawiad dros sawl diwrnod. Mae`r plant yn dechrau defnyddio iaith fathemategol, fel "tedis bach, canolig a mawr." Mae`r plant yn gyfarwydd â ffonau symudol a thiliau arian ac maen nhw`n deall y defnydd o arian.

Mae llawer o blant yn medru rhaglenni tegan rhaglenadwy i symud ymlaen, yn ôl, i'r ochr dros nifer penodol o sgwariau.

Mae eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o'r byd wedi`i datblygu`n dda drwy eu gweithgareddau fel dilyn cylch bywyd pili pala. Maen nhw`n gwybod bod rhaid gofalu am bethau byw ac yn gwerthfawrogi y bydd hadau sy`n cael eu plannu yn y gwanwyn yn darparu bwydydd i'w bwyta nes ymlaen. Mae'r holl blant yn dangos datblygiad da o sgiliau echddygol bras a manwl, fel wrth beintio.

Mae'r holl blant yn siarad Cymraeg yn rhugl, gan gynnwys y rhai o gartrefi lle siaredir Saesneg. Maen nhw`n mwynhau canu caneuon a hwiangerddi Cymraeg a siarad yn rhydd gyda'u ffrindiau yn y Gymraeg. Maen nhw`n mwynhau storïau Cymraeg ac edrych ar lyfrau Cymraeg.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn hapus i fynychu'r lleoliad ac yn setlo`n gyflym i drefn y dydd sydd wedi`i hen sefydlu. Maen nhw`n ymddwyn yn dda iawn, yn gwrtais ac mae ganddynt ddigon o hunan-barch sy`n eu galluogi i siarad ag ymwelydd.

Mae gan bob plentyn agwedd dda iawn tuag at ddysgu. Mae`r gweithgareddau sydd ar gael iddynt yn diddori`r plant yn llawn ac maen nhw`n canolbwyntio am gyfnodau hir. Mae`r plant yn dangos eu bod yn gallu gwneud dewisiadau a`u bod yn ddysgwyr annibynnol hyderus. Mae pob plentyn yn cydweithio'n dda, yn oddefgar ac yn rhannu adnoddau yn ôl yr angen.

Mae`r plant yn awyddus i siarad am eu profiadau ac mae ganddynt eirfa eang fel wrth ddisgrifio adar ac anifeiliaid eraill maen nhw wedi`u hastudio.

Mae amser byrbryd yn achlysur cymdeithasol da. Mae pob plentyn yn sylweddoli pwysigrwydd cadw'n lân ac yn golchi eu dwylo gyda dim ond ychydig o anogaeth. Mae`r plant yn ymwybodol o fwyd iach fel ffrwythau.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu amrywiaeth dda iawn o brofiadau dysgu ar draws yr holl feysydd dysgu. Mae`r ymarferwyr yn cynllunio gyda'i gilydd gan ddefnyddio eu profiad o'r hyn a fydd o ddiddordeb i'r plant ac mae`r gweithgareddau yn cyfateb yn dda i ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae`r cynllunio yn cael ei drefnu o amgylch themâu, ond yn ddigon hyblyg i allu addasu i ddigwyddiadau sy'n codi, fel eira.

Mae pwyslais priodol ar blant yn dysgu trwy chwarae a phrofiadau uniongyrchol. Mae hyn yn sicrhau diddordeb y plant a`u cymhelliant i ddysgu.

Nodwedd dda a nodedig o`r cynllunio yw ei fod yn gyfannol, gan ystyried pob agwedd o`r cwricwlwm, gan gynnwys iaith, rhifedd, dealltwriaeth o'r byd, sgiliau creadigol a sgiliau echddygol bras a manwl. Mae yna lawer o gyfleoedd amrywiol i blant ddatblygu eu sgiliau meddwl, i wneud dewisiadau ac i weithio'n annibynnol.

Mae`r cynllunio yn sicrhau cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u cyfeirio gan oedolion a chyfleoedd i`r plant ddewis eu gweithgareddau ac i weithio`n anibynnol.

Mae cyfleoedd da i blant ailgylchu papur a photeli plastig ac i ddefnyddio compost yn eu gardd. Mae darpariaeth effeithiol i ddatblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru. Mae`r plant yn dathlu Dydd Gŵyl Dewi gyda lluniau, bwyd a thrwy wisgo'n briodol. Mae`r plant hefyd yn cymryd rhan yn eu heisteddfod eu hunain.

**Addysgu: Da**

Mae gan ymarferwyr ddealltwriaeth dda o athroniaeth y Cyfnod Sylfaen ac yn defnyddio ystod eang o strategaethau hynod arloesol a llawn dychymyg i annog a chymell y plant. Mae`r adnoddau'n cael eu defnyddio'n greadigol i gefnogi'r dysgu ac yn gyffredinol mae`r plant yn cyflawni safonau da iawn.

Mae`r ymarferwyr yn defnyddio ystod dda o strategaethau addysgu gyda chydbwysedd priodol rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan y plentyn a`u harwain gan oedolion. Mae`r staff yn gwybod am y pwysigrwydd o ddarparu cyfleoedd i blant ddysgu trwy chwarae ac ymglymiad gweithredol ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn yr addysgu.

Mae`r berthynas yn eithriadol o dda, gyda`r plant yn ymwneud yn dda iawn a`i gilydd a gyda oedolion. Mae`r plant yn cael eu cefnogi'n dda iawn, mae ganddynt yr hunan-hyder i wneud dewisiadau ac i weithio'n annibynnol. Mae gan y staff ddealltwriaeth glir o bryd i ymyrryd a phryd i adael i blant ddilyn eu diddordebau eu hunain. Mae`r ymarferwyr yn defnyddio'r amgylchedd cyfoethog y tu allan yn dda iawn i hyrwyddo dysgu`r plant.

Mae`r ymarferwyr yn fodelau iaith da iawn ac yn defnyddio cwestiynu yn bwrpasol i ddatblygu sut mae`r plant yn meddwl.

Mae'r lleoliad yn cadw ystod dda o dystiolaeth ffotograffig o weithgareddau`r plant sy`n cyfateb i'r chwe maes dysgu yng nghwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r lluniau yn cael eu hanodi gan nodi'r sgiliau sy`n cael eu cyflawni gan blant. Mae llyfrynnau unigol yn dangos gwaith y plant sy'n cael eu darparu ar gyfer rhieni ar ddiwedd y flwyddyn. Gall rhieni hefyd weld beth mae`r plant wedi ei wneud yn ystod y dydd. Mae'r rhain yn gofnodion defnyddiol, sy`n cael eu gwerthfawrogi gan y rhieni.

Mae'r lleoliad wedi dechrau asesiad mwy manwl o gyflawniad plant ac adnabod y camau nesaf yn nysgu `r plant. Mae hwn heb ddatblygu`n ddigonol eto ac ar hyn o bryd, nid yw`n canolbwyntio`n ddigonol ar ddatblygiad sgiliau`r plant ac nid yw`n cael ei ddefnyddio i gynllunio gweithgareddau i atgyfnerthu ac ymestyn dysgu`r plant.

Caiff rhieni eu hysbysu'n dda am y gweithgareddau mae`r plant yn ymgymryd â nhw pan fyddant yn casglu eu plant, a hefyd o'r cofnodion o waith y plant. Mae diwrnodau agored rheolaidd hefyd yn galluogi rhieni i weld gwaith y feithrinfa.

At ei gilydd, fodd bynnag, nid yw rhieni yn ddigon ymwybodol o gynnydd eu plant a'r hyn y gallant ei wneud i'w helpu i wella.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn darparu `r plant ag awyrgylch cynnes a chyfeillgar lle mae'r holl blant yn cael eu trin gydag anwyldeb. Mae pob plentyn yn hapus i fod yn bresennol ac yn teimlo bod croeso iddynt yno. Maen nhw`n ymwneud yn fuan gyda'u ffrindiau yn y nifer fawr o weithgareddau gwahanol a gwerth chweil sy`n cael eu darparu ar eu cyfer.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda gyda nodweddion rhagorol ac yn cefnogi lles plant yn dda iawn. Trwy

ddefnydd da o'r cyfleusterau ac ymweliadau allanol, fel y coetir cyfagos, mae synnwyr y plant o chwilfrydedd am y byd maen nhw`n byw ynddo yn  cael ei gyfoethogi.  Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn effeithiol drwy ddatblygu codau moesol y plant o degwch, gonestrwydd a gofalu am ei gilydd.

Mae`r ymarferwyr yn arwain trwy esiampl gan ddangos parch a thrwy gydweithio a helpu ei gilydd.  Mae`r plant yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd ac i ymddwyn yn dda.

Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd da i fod yn iach trwy, er enghraifft,  gweini ffrwythau ffres yn ystod amser byrbryd, golchi eu dwylo cyn bwyd, glanhau eu dannedd a chyfleoedd ar gyfer ymarfer corff egnïol.

Nid oes unrhyw blant ag anghenion dysgu ychwanegol, ond mae gan y lleoliad bolisïau priodol ar waith a gweithdrefnau addas i ddelio â phlant.

Mae`r plant yn dechrau dod yn ymwybodol o bwysigrwydd cynaliadwyedd ac ailgylchu.  Er enghraifft, mae bwyd gwastraff yn cael ei gompostio i'w ddefnyddio ar y gwelyau llysiau.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu:  Da**

Mae'r lleoliad yn darparu `r plant ag ethos cynhwysol a chyfeillgar lle mae'r holl blant yn cael eu gwerthfawrogi a'u parchu.  Mae gan bawb hawl gyfartal i adnoddau a gweithgareddau.  Mae pwyslais priodol ar ddathlu amrywiaeth, fel dathlu'r flwyddyn newydd Tsieineaidd, arferion a bwydydd Tseiniaidd.

Mae'r plant yn gwybod bod eu barn a'u syniadau yn cael eu parchu, fel eu syniadau am yr hyn y byddent yn hoffi dysgu.  Mae eu syniadau yn cael eu hymgorffori i mewn i`r gweithgareddau dysgu sy`n cael eu cynllunio.

Mae`r lleoliad wedi`i staffio`n hael gydag ymarferwyr sefydledig sydd â phrofiad da.  Mae'r lleoliad wedi cael ei addasu i gwrdd ag anghenion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.  Mae'n cael ei gynnal a'i gadw'n dda, mae`n ddiogel ac yn amgylchedd dysgu deniadol ar gyfer y plant.

Mae'r amgylchedd y tu allan yn arbennig yn darparu`r plant ag amgylchedd dysgu dychmygus ac arloesol sy`n cyfateb yn dda i anghenion plant.  Mae'r arddangosfeydd o waith y plant yn cyfoethogi'r amgylchedd dysgu.

Mae ymweliadau â `r ardal, fel y coetir lleol, yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i ddysgu`r plant.

| Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth? | Da |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae`r lleoliad yn cael ei arwain a'i rheoli'n dda. Mae`r ymarferwyr yn canolbwyntio`n dda ar ddarparu'r ddarpariaeth orau posibl i bob plentyn ac mae hyn yn cael ei gyflwani yn ymarferol. Mae hyn yn cael ei gydnabod gan y rhieni, ac mae llawer ohonynt yn teithio cryn bellter i ganiatáu i'w plant fynychu'r feithrinfa. Mae`r rhieni yn gwerthfawrogi agosatrwydd y staff a bod eu plant yn hapus ac yn awyddus i fod yn bresennol. O ganlyniad, mae`r berthynas gyda rhieni a gyda phlant yn gadarnhaol ac yn cyfrannu at ymdeimlad o gymuned.

Mae'r holl ymarferwyr yn gwybod beth yw eu rolau a'u cyfrifoldebau. Maen nhw`n adnabod ei gilydd yn dda, yn gweithio yn hapus yn y lleoliad ac yn gweithredu'n dda fel tîm. Mae`r gweithgareddau o ddydd i ddydd yn dangos bod gan y staff synnwyr o bwrpas, cefnogaeth am ei gilydd a balchder yn eu gwaith. Maen nhw`n falch o`r hyn sydd wedi`i gyflawni.

Mae'r lleoliad yn dangos disgwyliadau uchel ar gyfer staff a phlant ac mae'r rhain yn cael eu cyflawni yn ymarferol. Mae'r gwerthusiad blynyddol o staff yn sefydlu targedau ac yn gysylltiedig â hyfforddiant priodol ar gyfer datblygiad proffesiynol y staff.

Mae polisïau a gweithdrefnau priodol yn eu lle ac yn cael eu gweithredu'n gyson. Mae`r ymarferwyr yn cyfarfod yn wythnosol i gynllunio ac i drafod cynnydd a chyflawniad y plant.

Mae'r lleoliad yn bodloni blaenoriaethau cenedlaethol a lleol yn briodol, gan gynnwys, er enghraifft, gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a menter "Cynllun Gwên" ar gyfer hylendid dannedd.

Derbyniodd y lleoliad y wobr "Buddsoddwyr mewn Pobl" yn 2012.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae hunanarfarnu effeithiol yn rhan rheolaidd a thrylwyr o fywyd y lleoliad. Mae`r ymarferwyr yn hunan-feirniadol ac mae gwerthuso sut mae`r plant yn gwneud cynnydd yn rhan annatod o'u gwaith. Mae hyn yn eu galluogi i gefnogi datblygiad y plant yn llawn. Mae'r gweithdrefnau hunanarfarnu yn seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol, ynghyd ag adborth gan rieni, er enghraifft o holiadur rhiant.

At ei gilydd, mae gan y perchennog ddealltwriaeth glir o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Mae hanes da iawn o nodi, cynllunio ar gyfer gwelliant ac ymgymryd â'r gwaith dros y blynyddoedd diwethaf. Nid yw`r perchennog, fodd bynnag, yn hunanfodlon, ond yn agored i syniadau ac mae meysydd i'w gwella wedi cael eu nodi. Mae'r rhain yn realistig, yn gyraeddadwy ac yn cynrychioli`r "camau nesaf" yn natblygiad y lleoliad.

At ei gilydd, mae`r gwelliannau wedi'u ffocysu'n dda ar wella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant, a'r effaith ar eu cynnydd a'u cyflawniad.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r trefniadau partneriaeth yn llwyddo i wella ansawdd y ddarpariaeth a'r canlyniadau ar gyfer y plant.

Mae`r trefniadau partneriaeth gyda rhieni yn dda iawn ac maen nhw`n gwerthfawrogi'r gofal mae`u plant yn ei dderbyn. Maen nhw hefyd yn gwerthfawrogi trefniadau hyblyg y lleoliad i ddarparu ar eu cyfer. At ei gilydd, mae hyn yn effeithio`n dda iawn ar les a datblygiad plant.

Mae`r plant yn ymgartrefu'n gyflym yn y lleoliad ac mae`r rhieni yn cael gwybodaeth allweddol pan fydd y plant yn dechrau yn y lleoliad.

Mae'r cysylltiadau gyda'r ysgol gynradd leol yn dda iawn ac mae'r trefniadau trosglwyddo yn effeithiol iawn gan arwain at fawr ddim straen ar gyfer y plant ac yn eu cyfarwyddo â'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r lleoliad yn elwa o gyngor a chymorth effeithiol gan athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a hyfforddiant sy`n cael ei ddarparu gan yr awdurdod lleol.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o adnoddau cymunedol lleol, fel ymweliadau â'r siop leol i ddarparu`r plant â dealltwriaeth o`r gwahanol rolau sydd gan bobl yn y gymuned.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r lleoliad wedi`i staffio`n hael gyda staff profiadol sydd wedi`u hyfforddi`n briodol. Maen nhw`n gweithio'n dda gyda'i gilydd ac yn cael eu defnyddio'n briodol.

Mae`r ymarferwyr yn derbyn hyfforddiant priodol yn seiliedig ar eu hanghenion canfyddedig ac mae hyn wedi bod yn effeithiol. Mae`r staff yn rhannu syniadau ac yn cefnogi ei gilydd yn dda. Mae effaith yr hyfforddiant yn cael ei gwerthuso ac yn gyffredinol wedi gwella'r ddarpariaeth ar gyfer y plant.

Mae gan y perchennog system effeithiol ar gyfer cadw gwariant o dan sylw ac mae enw da y lleoliad yn sicrhau bod nifer y plant sy'n mynychu yn parhau'n uchel.

O ystyried y canlyniadau sy`n cael eu cyflawni gan y plant, darpariaeth effeithiol ac arloesol y lleoliad, yr arweinyddiaeth cryf a boddhad y rhieni, mae`r lleoliad yn darparu gwerth da iawn am arian.

# Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

**Yr  arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol (NCMA)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |